

## Y TYYST

Sefydlwyd 1867

Cyfrol 155

Rhif 37

Medi 15, 2022

50c.

**CONDEMNIO'R CYNNYDD MEWN  
GWARIANT AR AMDDIFFYN**

Mae bwriad llywodraeth y Deyrnas Unedig i gynyddu gwariant ar amddiffyn yn aruthrol wedi cael ei wrthwynebu'n llwyr gan Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin. Ar ôl clywed y byddai'r cynnydd yn £157 biliwn dros yr wyth mlynedd nesa, cytunodd y cynadleddwyr mewn Cwrdd Chwarter yng nghapel Ffynnonbedr ger Meidrim i alw ar y llywodraeth i ailystyried. Datganwyd fod gwario ar arfau rhyfel yn groes i efengyl Iesu Grist, Tywysog Tangnefedd.

**Symiau aruthrol**

Datgelwyd bod Prydain yn gwario 2.2% o Gynnyrch Domestig Gros (GDP) ar amddiffyn. Mae hyn eisoes yn uwch na disgwyliad NATO o 2.1%, ond mae'r llywodraeth am godi'r canran i 3% erbyn 2030 – sef codiad o 60% mewn termau real. Mae £47biliwn yn cael ei wario ar amddiffyn eleni, a byddai codi'r ganran i 3% yn golygu gwariant o £75biliwn y flwyddyn.

Pe bai'r cynllun yn cael ei ariannu o drethiant, byddai angen cynnydd o 5c yn y bunt ar dreth incwm erbyn diwedd y ddegawd, neu godi'r gyfradd TAW presennol o 20% i 25%. Fel arall, byddai angen toriadau llym mewn gwariant ar wasanaethau cyhoeddus a/neu ymrwymiadau gwariant rhyngwladol. Mae Llywodraeth y DU eisoes wedi torri cymorth dramor o 0.7% o GDP i 0.5% er mwyn ariannu'r gyllideb amddiffyn – cam a gafodd effaith ddinistriol ar waith dyngarol yn y gwledydd mwyaf tlawd yn y byd lle mae pobl yn marw o newyn wrth y miloedd.

**Gwario anghyfrifol**

'Byddai codi'r canran i 3% yn wariant hollol anghyfrifol mewn cyfnod pan rydym yn wynebu'r argyfwng economaidd mwyaf mewn cenhedlaeth,' meddai Alun Lenny, cydlynnydd cenhadol y cyfundeb, wrth gyflwyno'r cynnig. 'Ni allwn fforddio cyfrannu degau o biliynau o bunnau'n ychwanegol trwy ein trethi tuag at ehangu'r lluoedd arfog, pan fod miliynau o deuluoedd yn wynebu caledi gwirioneddol oherwydd y cynnydd mewn costau byw. Byddai ariannu'r cynnydd sylweddol mewn gwariant ar amddiffyn trwy arallgyfeirio biliynau o bunnau o wasanaethau cyhoeddus fel iechyd a gofal, sydd eisoes yn gwegian, yn wirioneddol warthus.'

**Tueddiad peryglus**

Clywodd y cynadleddwyr bod awydd llywodraeth y DU i gynyddu grym ei luoedd arfog yn dueddiad peryglus a fyddai'n dwysau'r nawws filitariaeth yn rhyngwladol. Dim ond yr Unol Daleithiau, China ac India sy'n gwario mwy na Phrydain ar amddiffyn. 'Mae hynny'n creu mwy o elw i'r cwmnïau sy'n cynhyrchu arfau rhyfel,' meddai'r Parchg Guto Prys



ap Gwynfor (*yn y llun*) wrth eilio'r cynnig. 'Mae'r llywodraeth bresennol hefyd am hyrwyddo gogoniannau imperialaidd Prydain,' meddai, 'ac mae gwledydd fel Rwsia Tsieina am wneud yr un peth, trwy gael y cyhyrau milwrol i ddangos eu grym.'

Cawn wybod os yw'r llywodraeth am fwrw ymlaen a'i fwriad i gyrraedd y targed o 3% pan gynhelir yr adolygiad gwariant ym mis Tachwedd.

**Yr argyfwng  
COSTAU BYW**

Wrth i ni wynebu'r hydref a'r gaeaf mwyaf anodd ers blynyddoedd, beth allwn ni ei wneud i ddiogelu ein haelodau a helpu eraill yn ein cymunedau?

**CYMORTH ARIANNOL**

Sicrhau fod pawb yn gwybod pa help ariannol sydd ar gael iddynt.

Ewch i: [llyw.cymru/cael-help-gyda-chostau-byw](http://llyw.cymru/cael-help-gyda-chostau-byw)

Neu cysylltwch â'ch Cyngor Sir. Er enghraifft, yn Sir Gâr galwch mewn i'r HWB yn hen adeilad Debenhams, ffonio 01267 234567 / e-bostio [galw@sirgar.gov.uk](mailto:galw@sirgar.gov.uk) Mae gan bob Cyngor Sir ganolfan debyg.

**ARBED YNNI YN Y CARTREF**

Gallai gwneud pethau bach fel peidio â bod yn y gawod am fwy na 4 munud, peidio gorlanw'r tegell, troi'r thermostat lawr un radd (ond gofawch peidio a sythu) etc. arbed cannoedd o bunnau i chi.

[energysavingtrust.org.uk/hub/quick-tips-to-save-energy](http://energysavingtrust.org.uk/hub/quick-tips-to-save-energy)

**DEFNYDDIO EIN HADEILADAU**

Ystyried agor y festri am ddiwrnod neu ddau yn ystod yr wythnos i gynnig lle cynnes gyda diodydd poeth a chyfle i glebran!

Darparu cardiau i'r eglwysi i'w dosbarthu gyda manylion cyswllt.

Cafodd y poster hwn ei baratoi gan Gyfundeb Gorllewin Caerfyrddin

## Dros Bacistan

Un o arwyddion amlwg yr haf sych a gafwyd yng Nghymru yw'r lluniau a welsom o bobl yn sefyll ger adfeilion rhai o adeiladau pentref Capel Celyn wrth i lefel y dŵr yng nghronfa ddŵr Tryweryn ostwng. Wedi cael haf mor sych mae'n amhosib i ni amgyffred yr hyn a ddigwyddodd ym Mhacistan y dyddiau diwethaf hyn yn sgil y glaw monsŵn a'r llifogydd a'i dilynodd. Sut allwn ddechrau dychmygu'r gyflafan hon a adawodd un rhan o dair o'r wlad gyfan dan ddŵr? Mae'r ffigurau moel yn ddychrynlyd: dros 1,100 wedi eu lladd; dros 1,600 wedi eu hanafu; dros filiwn o dai un ai wedi eu difrodi neu eu dinistrio; tri chwarter miliwn o anifeiliaid wedi'u colli; a hyd at dair miliwn a hanner o aceri o gnydau wedi eu difetha. Mae'r Cenhedloedd Unedig yn amcangyfrif bod 33 miliwn o bobl – un o bob saith o bobl y wlad – wedi eu heffeithio gan y llifogydd dychrynlyd hyn. Mae dros 6 miliwn ohonynt mewn angen difrifol. Os yw'r ffigurau moel yn ddychrynlyd mae'r lluniau a'r adroddiadau yn fwy felly. Gall ffigurau moel fynd yn angof yn sydyn ond mae lluniau pentrefi a threfi dan ddŵr yn aros. Ac mae gweld cartrefi wedi eu difetha a phobl a phlant yn glynu wrth y llain gulaf o dir sych yn anodd iawn eu hanghofio. Ac er bod llifogydd a dinistr gyda ni erioed mae'n amlwg eu bod yn amlhau ac yn dwysau oherwydd y newid hinsawdd y clywsom gymaint amdano dros y blynyddoedd diwethaf

### Ymateb

Yn naturiol, mae Pwyllgor Argyfyngau Brys Cymru (DEC Cymru) a'i elusennau cysylltiol, sy'n cynnwys Cymorth Cristnogol a Tearfund, yn apelio am arian



Cyflwynwyd rhodd gan y gweinidog ar ran eglwys Ebeneser, Caerdydd, i ddau o'n diaconiaid mwyaf profiadol, sef Malcolm Thomas ac Eira Jones. Neilltuwyd y ddau ohonynt i'r ddiagoniaeth ym 1970 gan y Parchg Dr Emlyn Jenkins. Eira oedd y diacon benywaidd cyntaf yn hanes yr achos ac mae ganddi hanesion diddorol am yr heriau a wynebodd. Y mae'r ddau yn Gristnogion gloyw sy'n caru Iesu ac am fwy na hanner can mlynedd y mae eu cyfraniad i fywyd Ebeneser wedi bod yn aruthrol.

Ymhlith pethau eraill bu Eira gyda'r ysgol Sul, yn cyfeilio, yn cymryd rhan mewn oedfaon, yn weithgar gyda Chymdeithas y Chwirydd ac yn is-ysgrifennydd. Un o'i diddordebau mawr yw gwneud pwythwaith. Yn yr un modd bu Malcolm yn fawr ei gyfraniad a deunaw mlynedd yn ôl fe'i hetholwyd yn ysgrifennydd yr eglwys fel olynnydd i'r

diweddar, annwyl Dr Emrys Evans. Y mae wedi bod yn ysgrifennydd heb ei ail, yn weithgar, yn groesawus ac yn gefn aruthrol i'r gweinidog trwy droeon yr yrfa.

Buom yn pendroni'n hir ynglŷn â beth allem ei roi i bobl sydd â phopeth. Y penderfyniad oedd comisiynu Dr Eirian Dafydd i gyfansoddi englynion i'r ddau ac fe'i cyflwynwyd iddynt fel arwydd o'n diolch mawr ac o'n parch dwfn tuag atynt. Dyma'r englynion,

### Eira Jones

*O edau wen ei deunydd a geiriau  
y Gair sy'n dragywydd  
y lluniwyd â llawenydd  
sampler ei phader a'i ffydd.*

### Malcolm Thomas

*Y mae gwres yn fflam ei groeso, a gras  
yw'r grym sy'n ei lywio  
i roi'i fryd ar droi ei fro  
yn aelwyd i'w hanwlyo.*



Alun Tudur, Eira Jones a Malcolm Thomas

er mwyn medru fonf cymorth brys i bobl Pacistan. Ac er yr argyfwng ariannol y clywsom gymaint amdano dros yr wythnosau diwethaf mae dros 13 miliwn a hanner o bunnoedd wedi ei gyfrannu at apêl DEC trwy wledydd Prydain. Dros y dyddiau nesaf, mae'n sicr y bydd y swm hwnnw'n cynyddu, a does ond gobeithio y bydd ceiniog a gyfrannwn yn help bychan. Er i ni deimlo'n analluog i helpu am ein bod mor bell i ffwrdd (a ninnau, a bod yn onest, yn diolch yr un pryd nad ydym ni a'n hanwyliaid yn agos at y fath ddinistr), y mae un peth pwysig y medrwn ei wneud. Mi fedrwn weddio, a rhaid gwyllo rhag i ni am un eiliad ddibrisio gwerth y gweddio hwnnw. Mae'r elusen Gristnogol Tearfund yn ein hannog i ganolbwyntio ar bum peth yn ein gweddïau.

- Gweddïwn dros y bobl a ddiodeffodd oherwydd y llifogydd.
- Gweddïwn dros y bobl sy'n ymateb i'r argyfwng.
- Gweddïwn y bydd nerth a chariad Duw yn amlwg wrth i eglwysi Pacistan wasanaethu'r bobl a ddiodeffodd.
- Gweddïwn dros y plant a'r bobl sy'n fwy bregus na'i gilydd.
- A gweddïwn y bydd y glaw yn peidio, a phobl ar draws y byd, ynghyd ag arweinwyr y gwledydd cyfoethocaf yn arbennig, yn gwneud popeth posibl i ddelio ag argyfwng newid hinsawdd.

**John Pritchard**

(allan o Gronyn, wthnosolyn gofalaeth fro'r Llechen Las, 4 Medi 2022, rhif 948)

# Yr Adran Gydenwadol

## Stormydd Awst a hunllefau'r hydref



Llun: [https://www.flickr.com/photos/un\\_photo/4923164991](https://www.flickr.com/photos/un_photo/4923164991) Generic (CC BY-NC-ND 2.0)

Wrth i fis Medi garlamu dros y gorwel, byddwn yn ailgydio yn rhaglenni gwaith tymor yr hydref a'r gaeaf, gan anghofio weithiau fod bywydau'r rhely yn llifo'n ddi-dor dros gyfnod yr haf – heb wyliau o gwbl. Diolch am y rhai sy'n gweithio heb dynnu sylw atynt eu hunain, a dim ond yn gofyn am gyflog teg ac amodau gwaith rhesymol wrth i'r economi fygwth fod mor heriol yn chwarter olaf y flwyddyn hon. Bydd costau byw yn ein brawychu o glywed am brisiau rhagarfaethedig ynni yn benodol a nwyddau sylfaenol bywyd yn gyffredinol. Mae 'na groeswyntoedd stormus ar y ffordd ac ni allwn rag-weld nawr sut bydd hi arnom erbyn y Nadolig.

Cawn gyfle i gymharu profiadau gwyliau teuluol, a chanmol llwyddiant yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron. Bydd digwyddiadau eraill wedi hawlio sylw, a bu'r papurau Llundenaidd yn rhoi llawer o ofod i arweinyddiaeth y Blaid Doriaidd, y rhyfel yn Wcráin, a'r modd bydd patrymau tywydd yr haf yn gofyn cwestiynau sylfaenol am effaith cynhesu byd-eang. Ni all unrhyw wladweinydd amau nad yw llosgi tanwydd ffosil, boed er mwyn trafniadaeth neu unrhyw ddiwydiant, yn niweidiol, a'i bod yn hanfodol fod gwledydd y byd yn lleihau

eu defnydd o unrhyw beth a fydd yn cynyddu difrodi'r ddaear.

Diwedd mis Awst cyhoeddwyd bod yr Unol Daleithiau yn ailgydio yn eu rhaglen o deithio'r gofod a lansio roced i gyfeiriad y lleuad. Digon tebyg fod yna ddadleuon gwyddonol dros gyfiawnhau hyn, gan ddweud bod y ddynoliaeth ar ei hennill ar ôl i'r fath ymchwil a theithio'r gofod ddigwydd. Falle'n wir! Ond beth am yr effaith andwyol ar amgylchedd y ddaear a'r gwenwyn sy'n cael ei ledi yn dilyn y taniad. Onid yw Rwsia yn gorfod derbyn bod yna ddadleuon amgylcheddol i'r rhyfel yn erbyn Wcráin, a bod bygwth defnyddio arfau niwclear yn rhan o'r arswyd hwnnw? Onid yw China ac India yn gweld bod llosgi glo yn benodol yn ychwanegu at y gofid ecolegol? Os yw Pacistan yn gweld llosgi arswydus yn 2022, beth fyddai'r effaith ar ddinasoedd yn China ac India yn ogytal ag ynysoedd yn y Dwyrain Pell a fyddai'n boddi'n llwyr pe byddai mwy o'r rhewlifoedd yn meirioli a lefel y môr yn codi ychydig fodfeddi yn unig?

Wrth wrando ar yr effaith ar amaethyddiaeth yn Wcráin a Phacistan, cofnodwn fod y cyfyngiadau dŵr ar



amaethyddiaeth yn Ewrop yn rhoi ongl wahanol ar yr un arswyd. Sawl eglwys sydd, fel Ebeneser, Caerdydd, yn neilltuo apêl arbennig am y deuddeg mis nesaf i gefnogi elusen **Tir Dewi**, sy'n bwrw iddi i gefnogi ffermwyr yng Nghymru sy'n dioddef o iselder ysbryd, gyda nifer cynyddol ohonynt yn dewis hunanladdiad. Ceir mwy o wybodaeth drwy ymweld â [www.tirdewi.co.uk](http://www.tirdewi.co.uk) neu ffonio 0800 1214722. Gallwn gefnogi'r apeliadau hyn, boed gartref neu dramor. Wrth wynebu tymor yr hydref, gwnawn hynny'n weddigar ac yn gadarnhaol er lles y ddaear ac o blaid heddwch byd.

Denzil John

## Duw ar waith

**Mae Tom Defis newydd ymddeol fel aelod o staff Cymorth Cristnogol ar ôl 29 mlynedd. Cafodd Dyfed Wyn Roberts sgwrs ag ef ar ddiwedd pennod go arbennig.**

**Wel, Tom, mae'r diwrnod mawr wedi cyrraedd! Sut wyt ti'n teimlo am y peth?**

Teimlad rhyfedd, a dweud y gwir, gan fod gwaith Cymorth Cristnogol wedi bod yn weinidogaeth ac yn alwedigaeth, ac yn rhan ganolog o fywyd ac o fywyd y teulu. Mi fydd bywyd yn wahanol, er wrth gwrs y bydd Cymorth Cristnogol yn cael lle amlwg o hyd. Rwy'n digwydd bod yn Drysorydd Cyfundeb yr Annibynwyr ac mae'r Undeb wedi ymrwmo i drafod ymgyrch Cymorth Cristnogol ynglŷn â newid a chyfiawnder hinsawdd ac wedi cytuno i gynnal apêl enwadol i gefnogi Cymorth Cristnogol y flwyddyn nesaf. Ond, fel pawb sy'n ymddeol, mi fydd cyfle i ymlacio, gobeithio.

**Beth aiff â dy amser wedi i ti ymddeol?**

Bydd yn braf cael rhoi mwy o amser i'r teulu ac yn arbennig yr wyrion Corran a Serian, sy'n dod yn bobl ifanc bellach, a'r ddau fach, Tristan ac Efa. Bydd cyfle i wneud mwy ar ein tyddyn, gobeithio, a chefnogi'r gwaith gofalu am y defaid, y geifr, y moch a'r alpacas.

Mae Canolfan Heol Dŵr yn brosiect i sefydlu canolfan Gristnogol a chymunedol Gymraeg yng Nghaerfyrddin. Fel un o'r ymddiriedolwyr a chadeirydd y ganolfan, bydd llawer o waith i'w wneud yno. Rwy'n aelod o nifer o fudiadau yn sir Gaerfyrddin, felly bydd digon i'w wneud, yn y dyfodol agos beth bynnag.


**Ar ôl 29 o flynyddoedd, mae'n siŵr fod gen ti lawer iawn o atgofion? Be ydi'r peth sy wedi rhoi'r mwyaf o bleser iti yn y gwaith?**

Rwyf wedi cael pleser mawr yn cydweithio ag ymgyrchwyr, cefnogwyr, yr eglwysi a'r enwadau, yn ogystal â phobl yn y cymunedau, ac mae ymweld ag ysgolion i rannu am y gwaith hefyd wedi bod yn bleser. Y pleser mwyaf yw gweld effaith gwaith ein cefnogwyr yma yng Nghymru ar waith ein partneriaid, a'r newid sydd yn digwydd yn eu cymunedau yn sgil hynny. Mae wedi bod yn fraint cael bod yn rhyw ddolen gyswllt rhwng y partneriaid yng Nghymru a'r partneriaid yn y gwledydd lle mae Cymorth Cristnogol yn gweithio.

**Rwyf ti wedi cael cyfle i deithio dramor sawl gwaith i weld gwaith partneriaid Cymorth Cristnogol. Be sy'n aros yn y cof o'r teithiau hynny?**

Un o'r pethau rwy wedi'i deimlo yw mai ein braint ni yw cael gweithio gyda'r tlawd a'r rhai sydd dan ormes. Nid gweithio dros y tlawd – nid ni'n rhoi a nhw'n derbyn, ond cydweithio i nerthu'r gwan, codi pobl ar eu traed i gynnal eu cymunedau a lleihau gormes. Rhai o'r pethau sy'n aros yn y cof: tlodi eithafol yn Affrica ac Asia, canlyniad gormes a thrais yn Guatemala ac yn arbennig ym Mhalestina, effaith trychinebau sy'n taro rhai ardaloedd dro ar ôl tro, fel Haiti a Chanolbarth America.

Ond hefyd, cofio gweld effaith gwaith Cymorth Cristnogol, y llawenydd a'r gwerthfawrogiad gan bobl sy'n derbyn cymorth a chefnogaeth. Gweld plentyn 9 oed wedi gwella o ddiffyg maeth eithafol yn Tanzania, gwragedd yn gweithio'n galed i adeiladu cronfa ddŵr allweddol yn Zimbabwe. Gweld teuluoedd yn Nicaragua yn ailadeiladu eu bywydau ar ôl swnami a rhai yn Haiti yn symud i mewn i gartref o'u tai sianti ar ôl daeargryn anferth. Sylweddoli dylanwad ymgyrchoedd cymod, a ffoaduriaid yn dathlu cael mynd adref i Guatemala; cael eistedd o gwmpas ford bwyd gyda meddygon a oedd yn Israeliaid, a hynny mewn pentref a chymuned o Balestinaid yng ngwlad yr Iesu.



**Am y tro cyntaf ers rhai blynyddoedd, mae tlodi eithafol ar gynydd yn y byd. Fyddi di'n colli gobaith weithiau?**

Mae'n gallu bod yn anodd ac yn rhwystredig weithiau, ac mae rhywun yn cynhyrfu pan fydd gweithgarwch y cyfoethog yn effeithio'n andwyol ar y tlawd – fel gyda grawn ar hyn o bryd. Oherwydd y prinder, mae'r cyfoethog yn prynu'r cynnyrch heb ofidio bod y tlawd heb ddim, neu fod y pris y tu hwnt i gyrraedd y tlawd. Mae hyn wedi digwydd ynglŷn â'r brechlyn Cofid hefyd, lle mae'r gwledydd cyfoethog wedi meddiannu'r cyflenwadau. Er gwaethaf hynny, rhaid peidio colli gobaith ond dyfalbarhau yn y gwaith, gan gofio bod pob cyfraniad yn gwneud gwahaniaeth. Rwyf wedi sylweddoli bod Duw yn troi ein cyfraniadau bach ni i fod o fendith fawr i eraill. Nid gormod o dlodi yw problem fawr ein byd, ond effaith gormod o gyfoeth.

**Rydyn ni'n byw mewn Cymru ôl-Gristnogol, medd rhai. Beth ydi rôl asiantaeth cymorth ryngwladol wedi ei seilio ar ffydd yn y Gymru fodern?**

Mae Cymorth Cristnogol yn rhoi cyfle i eglwysi a Christnigion gydweithio a chyd-dystio i'w ffydd yn eu cymunedau. Gobeithio bod gwaith Cymorth Cristnogol yn ddatguddiad o Dduw ar waith yn y byd – tystiolaeth o gariad Duw mewn byd sy'n brin iawn o gariad. Rwy'n cofio clywed un o'n partneriaid ni o'r India yn ateb cwestiwn, 'Beth mae Cymorth Cristnogol yn ei olygu i chi sydd o ffydd arall?' A'i hateb hi oedd, 'Mae Cymorth Cristnogol yn rhoi heb ofyn am ddim yn ôl.' Duw ar waith.

**Pa neges sydd gennyf ti i eglwysi Cymru wrth iti ymddeol?**

Wel, dau beth – gair o ddiolch am bob cefnogaeth, am bob ymgyrch a chyfraniad, ond gair o anogaeth i barhau i wneud gwahaniaeth. Yr eglwysi yw Cymorth Cristnogol: ry'n ni fel mudiad yma yn llais i ddweud y stori ac yn freichiau i ymestyn cymorth yr eglwysi. Cofiwf mai'r eglwysi sy'n berchen ar Cymorth Cristnogol ac mai gwaith Duw yw'r cyfan. Cyfrannwch yn hael, ymgyrchwch yn gadarn a gweddiwch yn daer am lwyddiant. Bydd Duw yn bendithio'r gwaith.

**Meddai Mari McNeill, Pennaeth Cymorth Cristnogol Cymru:**

'Bydd colled enfawr yng ngorllewin Cymru ar ôl Tom. Hoffwn ddiolch o galon iddo am ei gyfraniad mawr dros 29 o flynyddoedd a dymuno bendith Duw arno ef, Anona ei wraig, a'r teulu oll yn ei ymddeoliad.'

Er bod Tom yn ymddeol, bydd gwaith Cymorth Cristnogol yn parhau. Bydd y gwaith yng ngorllewin Cymru yn awr yn uno â'r de a'r gogledd.

Ychwanegodd Mari: 'Ry'n ni'n gwybod y bydd haelioni ein cefnogwyr yng ngorllewin Cymru yn parhau. Er mwyn eu cefnogi yn eu hymdrechion gofynnwn iddynt gysylltu â swyddfa genedlaethol Cymorth Cristnogol Cymru yng Nghaerdydd, a bydd Helen ac Eleri yn falch o allu helpu gydag unrhyw ymholiad.'

Gellir cysylltu â'r swyddfa drwy e-bostio [cymru@cymorth-cristnogol.org](mailto:cymru@cymorth-cristnogol.org) neu drwy ffonio 029 2084 4646.

## O'r Beibl: 15

### Y Gwynfydau (8)

'Gwyn eu byd y tangnefeddwyr,  
oherwydd cânt hwy eu galw'n blant i Dduw.'  
(Mathew 5:9)

Heddiw rydym yn cyrraedd y seithfed gwynfyd, sydd i'w gael yn Mathew 5:9: 'Gwyn eu byd y tangnefeddwyr, oherwydd cânt hwy eu galw'n blant i Dduw.' Mae'n bosibl mai hwn yw'r gwynfyd mwyaf adnabyddus i'r Cymry gan fod Waldo wedi ysgrifennu ei gerdd enwog 'Y Tangnefeddwyr' yn seiliedig ar y geiriau hyn. Ond beth mae Iesu'n ei olygu pan mae'n dweud fod y 'tangnefeddwyr' yn wyn eu byd?

Fel y gwelwom yn ystod yr wythnosau diwethaf, disgrifiad o'r Cristion – yr un sy'n credu yn Iesu – yw'r Gwynfydau. Disgrifiad o'r rhinweddau sydd i nodweddu cymeriad a bywyd y Cristion yw'r rhain. Yn y seithfed gwynfyd mae Iesu'n ychwanegu rhinwedd arall at ei bortread o'r Cristion: mae'r Cristion yn 'dangnefeddwr'.

Beth mae bod yn 'dangnefeddwr' yn ei olygu? Mae beibl.net yn cyfieithu'r gair hwn fel 'yr un sy'n hyrwyddo heddwch' ac mewn ffordd debyg mae'r Beibl Saesneg yn cyfieithu'r un gair fel 'peacemaker'. Dyma beth yw ystyr 'tangnefeddwr'. Mae'r Cristion i fod yn berson sy'n hyrwyddo ac yn annog heddwch.

Ond sut ydym i wneud hyn yn ymarferol? Wel, yn ein perthynas ag eraill, nid ydym i geisio dial na thalu'r pwyth yn ôl pan mae rhywun wedi gwneud cam â ni. Yn hytrach, rydym i fod yn barod i faddau, hyd yn oed i'n gelynyon. Yn ein heglwysi, nid ydym i chwilio am anghydfod, ond rydym i garu ein cyd-aelodau. Yn ein teuluoedd a'n cymunedau, rydym i gael ein hadnabod fel pobl sy'n ceisio cymodi eraill â'i gilydd.

Pam ydyn ni i fyw fel hyn fel Cristnogion? Mae ail hanner y gwynfyd yn ateb y cwestiwn hwn: 'Gwyn eu byd y tangnefeddwyr, oherwydd cânt hwy eu galw yn blant i Dduw'.

Un peth sy'n eich taro chi am rai plant ydy pa mor debyg ydynt i'w rhieni. Yn aml, mae un plentyn yn edrych yn debycach i'w dad ac un arall yn debycach i'w fam. Wrth i blant dyfu i fyny, maent yn aml yn dod hyd yn oed yn debycach i'w rhieni.

Rhywbeth tebyg i hyn mae Iesu yn ei ddweud yn ail hanner y gwynfyd hwn. Fel Cristnogion, Duw yw ein Tad. Wrth i ni fod yn 'dangnefeddwyr' yn ein bywydau, y cyfan yr ydym yn ei wneud ydy dod yn debycach i'n Tad. Oherwydd fe yw'r tangnefeddwr mwyaf, fe yw'r arbenigwr mewn heddwch. Er ein bod ni wedi gwrthryfela yn ei erbyn gan ddod yn elynion iddo yn ein pechod, fe wnaeth Duw ffordd i ddod â heddwch rhyngom eto. Bu farw Iesu ar y groes gan wynebu'r pris am ein pechodau er mwyn i ni gael perthynas newydd â Duw. Yn Colosiaid 1:20, mae'r Apostol Paul yn dweud hyn: 'trwyddo ef [Iesu], ar ôl gwneud heddwch trwy ei waed ar y groes, i gymodi pob peth ag ef ei hun, y pethau sydd ar y ddaear a'r pethau sydd yn y nefoedd'.



Heb os, y brif ffordd i fod yn 'dangnefeddwr' heddiw ydy drwy rannu am Iesu ag eraill, gan wahodd pobl i gael heddwch â Duw drwy gredu ynddo. Yn wir, nid oes heddwch pwysicach na'r heddwch hwn.

#### Cwestiynau i feddwl amdanynt:

1. Beth mae'n ei olygu i fod yn 'dangnefeddwr'? Pam mae hyn yn beth heriol?
2. Pam rydyn ni'n dod yn debycach i Dduw drwy fod yn 'dangnefeddwr'?

Gwilym Tudur




# NOSON I'R IFANG

## SEION LLANELLI

### MEDI 21, 2022 - 7YH THEATR Y FFWRNES

**Mynediad yn rhad ac am ddim**

Gyda band addoliad newydd ADLAIS  
yn cyflwyno eu halbwm cyntaf!  
(Caneuon Cymraeg gwreiddiol  
gan Meilyr Geraint a Cadi Gwyn)

Cadwa dy le! → 

Sgania'r cod QR neu ffeindia'r linc ar ein bio...  @seion.llanelli

S4C

#### Dechrau Canu, Dechrau Canmol

Sul, 18 Medi am 7.30yh

Sul Heddwch: mae Lisa yn ymweld â chanolfan lloches i ffoaduriaid, a chawn glywed sut mae'r cerddor Carwyn Ellis yn helpu'r llai ffodus

BBC radio  
cymru

#### Caniadaeth y Cysegr

Sul, 18 Medi, am 7:30yb a 4:30yp

Canu cynulleidfaol o gymanfa Peniel, Tremadog.

Sul, 18 Medi, am 12:00yp

Oedfa dan arweiniad Nia Price, Rhosan ar Wy

I weld y cyhoeddiad digidol [Cenn@d](mailto:Cenn@d) yn llawn, dilynwch y ddolen hon: [www.cennad.cymru](http://www.cennad.cymru)

(Cyhoeddwr [Cenn@d](mailto:Cenn@d) ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteriaid Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

## Stephen Hughes, Apostol Sir Gaerfyrddin 1622-1688

*Dyma ran gyntaf darlith a draddodwyd gan Dr Emyr Gwyn Evans fel rhan o bererindod Gofalaeth Bröydd Myrddin i Bencader ac Ogor Cwmhwplin, ddydd Sul, 26 Mehefin 2022*

Cadwch mewn cof eich arweinwyr, y rhai a lefarodd air Duw wrthy, myfyriwch ar ganlyniad eu buchedd, ac efelychwch eu ffydd.

Hebraid 13:7



Priodolir y ddau ddywediad canlynol i Stephen Hughes: 'Elusen i'r enaid yw llyfr da yn llaw dyn' a 'Haws dyweddy mynydd na myned trosto.'

Ac fel pregethwr dywedodd James Owen amdano: 'Anaml y pregethai heb doddi mewn dagrau a'r rheini yn eu tro'n tynnu dagrau ei wrandawyr.' Dyfyniad, yng ngolwg pobl, oedd yn tystio i'w anwylydeb a'i boblogrwydd fel arweinydd a phregethwr yn ei ddydd.

### Cefndir

Ganed Stephen Hughes yn 1622. Bu farw yn 1688 yn y flwyddyn cyn pasio'r Ddeddf Goddefiad yn 1689, deddf a roddodd fesur o ryddid i'r Ymneilltuwyr,

o'r diwedd, wedi cyfnod o erledigaeth arnynt gan y Wladwriaeth a'r Eglwys Wladol, sef Eglwys Loegr. Yn dilyn yr Adferiad, fel mae haneswyr yn ei adnabod, pan ddaeth Siarl yr Ail i'r orsedd yn frenin yn dilyn cyfnod y Werinlywodraeth yng nghyfnod Oliver Cromwell fel Arglwydd Amddiffynnwr, esgorodd yr Adferiad ar gyfnod o erledigaeth ar Ymneilltuwyr ac Anghydfurfwyr, erledigaeth a barhaodd am oddeutu 30 o flynyddoedd. Pan basiwyd y Ddeddf Unffurfiaeth yn 1662 deddfwyd mai unig safon a rheol gwasanaethau crefyddol yn y deyrnas oedd dilyn y *Llyfr Gweddi Gyffredin*. Ar y Sul roedd rhaid i bob clerigwr ddarllen y Foreol a'r Hwyrrol Weddi yn gwmws fel yr oeddent yn y *Llyfr Gweddi*, a deddfwyd tasent ddim yn gwneud cyn Dydd Sant Bartholomeus ar 24 Awst 1662 pan roedd pob ficer fod i ddatgan ar goedd ei fod yn cytuno o lwyrfryd calon â chynnwys y *Llyfr Gweddi*, ac os nad oeddent, yna yr oeddent i'w troi allan o'u plwyfi.

### Efengylu

Nawr doedd Stephen Hughes yn amlwg ddim am gydsynio â gofynion y Ddeddf Unffurfiaeth, doedd e ddim am gydymffurfio a chyn hyn, ar 11 Ebrill 1661 roedd Stephen Hughes eisoes wedi ei ddifuddio, wedi ei droi allan o'i eglwys ym mhlwyf Meidrim. Roedd wedi gweinigogaethu yno oddi ar ei sefydlu yn y plwyf yn Hydref 1655. Ond nid ficer confensiynol oedd Hughes, confensiynol yn yr ystyr ei fod yn cyfyngu ei hun i'w

eglwys a'i blwyf. Yn nhraddodiad y Piwritaniaid roedd wedi dilyn ei weledigaeth i bregethu ac efengylu ar draws gwlad gan gynnwys cyfarfodydd o Gristnogion yn ei ardal yng ngogledd Sir Gaerfyrddin ac ar y ffin â siroedd Penfro ac Aberteifi. Roedd yn gredwr cryf bod rhai cyhoeddi'r efengyl i'r werin ac roedd yn efengylu llawer y tu allan i'w blwyf yn ystod tymor ei weinigogaeth ym Meidrim; a dyna pam y cafodd ei droi allan o'i blwyf cyn hyd yn oed Dydd Sant Bartholomeus yn Awst 1662

### Anghydfurfiwr

Ond beth rydym ni'n ei wybod am Stephen Hughes fel Ymneilltuwr ac Anghydfurfiwr yw ei fod wedi parhau yn ddewr iawn i fugeilio y cynulleidfaoedd yr oedd wedi cynnull tan ei farw yn 1688. A pham y mae'n cael ei adnabod fel Apostol Sir Gaerfyrddin? Wel, oherwydd ei fod wedi plannu a rhoi cychwyn i gymaint o achosion yn y sir ac ar ei ffiniau yn siroedd Penfro, Aberteifi a Brycheiniog. Yn ei dref enedigol sefydlodd achosion yng Nghaerfyrddin, yr achos a gyfarfu yn Heol y Prior, ddaeth yn ddiweddarach wedi symud i'w hadnabod fel Heol Awst. Sefydlodd yr achos yn Henllan Amgoed a'i changhennau yn Llanddewi-Efelfre, Egrement, y Pâl, Canerw a Llanboidy, yn Nhref-lech a Phencader, gyda'r aelodau yn addoli yn Ogor Cwmhwplin; yn y Mynydd-bach, yr achos rydym yn ei hadnabod heddiw fel Capel Isaac, a bu'r aelodau cynnar yn addoli yno yn Ogor Danycapel ym mhlwyf Llandyfeisant. Hughes sefydlodd yr achos ym Mhant-teg, merch eglwys i Bencader ac yng Nghefnarthen tu draw i Lanymddyfri, gyda'r aelodau yno yn addoli yn Ogor Craig y Wyddon, nepell o ffermdy Pantycelyn. Ac i Hughes y priodolir cychwyn ar achos yn Llansteffan, Llan-y-bri ac yn Llanedi, yr achos y meddyliwn amdani heddiw fel yr Hen Gapel yn Hendy. Roedd Stephen Hughes wedi dal cysylltiad gyda'r achosion yn y gorllewin yn ystod ei gyfnod ym Meidrim, ond wedi iddo symud yng nghyfnod yr erlid i Abertawe a oedd yn ddinas noddfa i Anghydfurfwyr yn y cyfnod, dal cysylltiad yn bennaf gydag eglwysi dwyreiniol Sir Gaerfyrddin a wnaeth yn ddiweddarach. O ystyried yr holl eglwysi y bu llaw ganddo yn eu sefydlu mae'n deilwng o gael ei gofio fel Apostol Sir Gaerfyrddin.

*Bydd yr ail ran yn y rhifyn nesaf o'r Tyst.*

UNDEB YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

Cyfundeb Gorllewin Morgannwg

*Sul o fawl*

Capel yr Allt-wen

Sul, 25 Medi, 2022 am 10.30 y bore

*O Aberdar i Fethlehem!*

Awr yng nghwmni Delwyn Sion

Cerddor ac Arweinydd Bethlehem,  
Gwaelod y Garth, Caerdydd

*Croeso cynnes i bawb*



## Y Golofn Ryngwladol

O Brasil y daw y cyfraniad i'r golofn y tro hwn. Nid wyf erioed wedi cyfarfod y Parchg Marco Guedes, ond daethom yn gyfeillion trwy'r we pan ddechreuodd Marco anfon newyddion i wefan Cymdeithas Annibynwyr y Byd.

Bu'n weithgar yng ngwaith y weinidogaeth am dros ddeugain mlynedd, a bu ef a'i wraig, Veronica, yn ymwneud ag amryw brosiectau cenhadol ac yn gweithio ymhlith pobl ifanc, arweinyddion ifanc, cyplau ac eglwysi ar hyd a lled Brasil a hefyd dramor. Buont hefyd am gyfnod yn dysgu mewn coleg diwinyddol; Marco yn dysgu Groeg a Veronica yn dysgu Seicoleg.

Bellach, y maent wedi ymgartrefu yn Rio de Janeiro ac mewn eglwys Brotestanaidd, ac yn gweithio'n rhan amser fel gwirfoddolwyr ac yn edrych ar ôl eu rhieni hefyd.

Mae'r hyn sydd gan Marco i'w rannu â ni yn hwb i'r galon. Lle bo trai mewn un man, mae'n llanw mewn man arall.

Geraint Tudur

## O GLASGOW I RIO DE JANEIRO

### Sut y gosododd meddyg o'r Alban sylfeini Protestaniaeth Brasil

Ar 19 Awst 2022, daeth miloedd o Annibynwyr Brasil at ei gilydd ledled y wlad i ddathlu pen-blwydd eu traddodiad Annibynnol yn 167 mlwydd oed! Wedi iddo gyrraedd Rio gyda'i wraig, Sarah Poulton Kalley ar 10 Mai 1855, ac wedi iddi hi sefydlu dosbarth ysgol Sul yn eu cartref gyda dyrmaid o blant ar 19 Awst 1855, ac iddo yntau wedyn ddechrau dosbarth Beiblaidd i ddynion du a gwyn oedd yn ymgynnull i addoli gyda'i gilydd, sefydlodd y Dr Robert Reid Kalley yr



*Igreja Evangélica Fluminense* (11 Gorffennaf 1858), yr eglwys efengylaidd gyntaf yn Brasil heb iddi unrhyw gysylltiad ag enwad. Hon oedd mam eglwys y traddodiad cynulleidfaol yn y wlad, a'r garreg lamu gyntaf yn hanes ffurfio undeb o eglwysi annibynnol a ddaeth i gael ei alw'n ddiweddarach yn *União das Igrejas Evangélicas Indenominacionais* (1913).



### Dyled fawr

Wrth groesawu Robert a Sarah i'w ymerodraeth Gatholig, nid oedd gan yr Ymerawdwr Pedro II unrhyw syniad na fyddai pethau fyth yr un fath wedyn, na chwaith y byddai newidiadau sylweddol yn digwydd ymhen y rhawg. Er ei fod yn gyfaill i'r Ymerawdwr, ni rwystrodd hynny'r meddyg rhag dadlau yn erbyn caethwasiaeth nac yn erbyn y gwaharddiad oedd yn y dyddiau hynny ar unrhyw addoliad cyhoeddus ar wahân i un Catholig. Do, cafodd Kalley ei erlid a'i wahardd rhag pregethu am gyfnod, ac oherwydd ei bryder am gywirdeb athrawiaeth yr Eglwys, aeth ati i gyfansoddi Cyffes Ffydd gyntaf Brasil, *Os 28 Artigos das Doutrinas Fundamentais do Cristianismo*, cyffes sy'n dal i gael ei defnyddio heddiw gan yr *União das Igrejas Evangélicas Congregacionais do Brazil* (UIECB). Mae'n dyled yn fawr i Robert a Sarah; gwnaethant gyfraniad gwerthfawr i addysg, llenyddiaeth, cerddoriaeth, hawliau dynol, rhyddid crefyddol a chenhadaeth ein cenedl.

### Amrywiaeth

Mae ystadegau swyddogol yn dangos fod dros 65 miliwn o Brotestaniaid yn Brasil erbyn hyn. Gyda'i dechreuadau yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yr oedd Protestaniaeth wedi ei chofleidio gan 22.2% o'r boblogaeth erbyn 2010, a'r

darogan oedd y byddai rhwng 31% a 40% wedi ei chofleidio erbyn 2020. Mae Protestaniaeth Brasil yn gymysgedd ddiddorol o Brotestaniaid efengylaidd; eglwysi Pentecostalaidd, Annibynwyr, Bedyddwyr, Presbyteriaid, Lutheriaid, Adfentistiaid, eglwysi anenwadol a nifer gynyddol o Gristnogion di-eglwys.

Fel y dywedodd fy nghyfaill a'm mentor, y Parchg Paulo Leite (llywydd yr UIECB, 1991–2009, a Gweinidog Hŷn yr *Igreja Evangélica Fluminense* ers 1993); 'Fel Cynulleidfaolwyr, cawsom y fraint o fod yr enwad cyntaf i bregethu'r Efengyl gyda chysondeb mewn Portiwgaleg. Clod i Dduw!' Ychwanegodd, gyda thristwch, nad oedd cael cymaint â hynny o Gristnogion efengylaidd wedi arwain at genedl fwy duwiol. Felly, os gwelwch yn dda, gweddiwch dros Brasil, fel ag yr ydym ninnau yn gweddi dros och chwithau.

Parchg Marco Guedes

Mae hanes diddorol y Dr Robert Reid Kalley (1809–1888) a'i briod, Sarah, i'w weld yn *Wikipedia*.

## 21 oed

Gan nad oes disgwyl i neb arall gofio, mae *Gronyn*, wythnosolyn gofalaeth y Llechen Las yn ardal Llanberis, yn dathlu ei ben-blwydd yr wythnos hon. Ar Sul cyntaf Medi 2001 y cychwynnwyd ei gyhoeddi yn wythnosol (er iddo gael ei gyhoeddi'n achlysurol cyn hynny). Dros y dyddiau nesaf, rydym yn siŵr o glywed llawer am y mis arbennig hwnnw gan mai ar 11 Medi'r flwyddyn honno y chwalwyd dau dŵr Canolfan Fasnach y Byd yn Efrog Newydd. Oes, mae 21 o flynyddoedd ers y digwyddiad erchyll hwnnw. Ac nid syndod o gwbl mai am y gyflafan honno y soniwyd yn *Gronyn* ar y Sul yn dilyn y digwyddiad. Dros y 21 mlynedd diwethaf cyfeiriodd y negeseuon ar dudalen flaen *Gronyn* at bob math o ddigwyddiadau a phynciau, ond mae testun y dudalen flaen heddiw'n ein hatgoffa eto o'r dioddefaint mawr sydd yn ein byd wrth i ni weld y llifogydd dychrynlyd ym Mhacistan. Cawn ein hatgoffa unwaith eto o'r angen i ni wneud popeth o fewn ein gallu er mwyn estyn cymorth i bobl anghenus ymhell ac agos.

Does wybod a wêl y *Gronyn* 21 mlwydd oed ben-blwydd arall chwaith.

John Pritchard

# Gronyn

**Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:**

**Y Parchg Ddr Alun Tudur**  
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,  
Caerdydd, CF23 9BS  
Ffôn: 02920 490582  
E-bost: aluntudur@btinternet.com

**Golygyddion**

**Y Parchg Iwan Llewelyn Jones**  
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,  
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,  
LL49 9UE  
Ffôn: 01766 513138  
E-bost: IwanLlew@aol.com

**Alun Lenny**  
Porth Angel, 26 Teras Picton  
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX  
Ffôn: 01267 232577 /  
0781 751 9039  
E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

**Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:**

**Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc  
Busnes Glanrafon, Bro Abertawe  
ABERTAWE SA7 0AJ  
Ffôn: 01792 795888  
E-bost: undeb@annibynwyr.cymru**

**Dalier Sylw!**

Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan  
Bwyllgor Llywio'r Adran  
Gydenwadol ac nid gan Undeb yr  
Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a  
wneio Golygyddion Y Tyst ddim â  
chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Tir Dewi

Eleni y mae Ebeneser, Caerdydd, yn  
cefnogi elusen Tir Dewi sy'n gwneud  
cymaint o waith



gwyh i gefnogi'r  
rhai hynny sy'n  
gweithio yn y  
sector  
amaethyddol  
yng Nghymru.  
Y mae'n

ddyddiau dyrys ac  
anodd i ganran uchel  
o'r boblogaeth ond y mae yn eithriadol o  
heriol i fyd amaeth gyda natur y gwaith  
Brexit a'r cynnydd mewn prisiau  
tanwydd a bwyd. Gellir cael rhagor o  
wybodaeth am y gwaith y gyflawni  
ganddynt trwy ymweld â'u gwefan:  
tirdewi.co.uk.

Y mae nifer o weithgareddau wedi eu  
cynnal i godi arian eisoes yn ystod 2022,  
e.e., rhedeg, mynydda tyfu blodau ac  
adara. Un peth sy'n flynyddol yn codi  
pentwr o arian yw cadw-mi-gei.  
Gofynnir i'r aelodau i roi rhywbeth yn



wythnosol yn y blwch sy'n eu cartrefi a  
thros flwyddyn mae'n syndod faint sy'n  
cael ei gasglu.

Yn dilyn ein hoedfa ar brynghawn Sul 4

Medi fe gynhaliwyd te pwnn  
er mwyn codi arian. Roedd y  
tîm elusen wedi bod wrthi fel  
lladd nadroedd yn paratoi a  
threfnu ac yr ydym yn eu  
dyled am eu gwaith mawr.  
Hwyliwyd y byrddau yn  
gymen addurnedig yn festri  
capel y Methodistiaid yn yr  
Eglwys Newydd. Gosodwyd y  
danteithion a baratowyd gan  
yr aelodau ar y byrddau hyd  
nes yr oeddent yn gwegian.  
Tynnent ddŵr glas i'ch  
dannedd dim ond wrth eu  
gweld. Daeth torf fawr o  
aelodau a ffrindiau at ei gilydd  
i loddesta ac i gymdeithasu yn  
hwyliog braf. Hyfryd oedd  
clywed y sbort a'r chwerthin  
wrth i bawb fwynhau. Hyd yn  
hyn y mae £369 wedi ei  
gyfrannau am y te a gwyddom  
fod rhagor ar y ffordd.

Diolch o galon i bob un  
fu'n rhan o'r digwyddiad yn  
coginio, gosod, gweini neu  
glirio.

## Dathliad arbennig



Mae eglwys Nebo Felindre yn dymuno  
pen-blwydd 90 hapus iawn i Mr Glan  
Miles, un o aelodau'r eglwys. Yn y llun  
uchod gwelwn Mr Miles yn derbyn  
rhodd o gloc gan y capel i ddathlu'r  
achlysur.

**William Rhys Locke**



**Eglwys Annibynnol**  
Providence, Llangadog  
Bethlehem, Dyffryn Ceidrych,

**Gwasanaeth Sefydlu'r**  
**Parchedig Catrin Ann**

**Prynhawn Sadwrn, 1 Hydref, 2022 am**  
**2 o'r gloch y prynhawn**  
**yng Nghapel Providence Llangadog**

**Bydd lluniaueth wedi'r oedfa yn**  
**Neuadd Gymunedol Llangadog**

**Croeso Cynnes i bawb**

Ysgrifenyddes yr ofalaeth: Mrs Jennifer Hughes  
Efail Newydd, Carreg Sawdde,  
Llangadog SA19 9BU  
(01550 779122 e.bost jen60@hotmail.co.uk)